



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar-lein am 7 y.h. ar lau y 21^{af} o Fai 2026

Yn Bresennol

Iona Evans	Cadeirydd
Shelagh Fishlock	Ysgrifennydd
Amanda Skull	Trysorydd

Rhisiart ap Gwilym, Eirian Davies, Dafydd Lewis, John Griffith, Eurgain Jones, Dominig Kervegant, Elen Owen, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Cynigiodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb gan nodi ei bod yn gymylog yn y gogledd ond bod sôn am dywydd chwilboeth erbyn y penwythnos.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Duncan Brown, Dawi Griffiths, Hywel Madog Jones, Gareth Wyn Jones, Rob Jones ac Elizabeth Roberts.

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR 19^{eg} CHWEFOR 2026

Cynigiodd Iwan Roberts ac eiliodd Amanda Skull dderbyn cofnodion cyfarfod 19 Chwefror 2026 fel rhai cywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Dywedodd y Cadeirydd y gellid trafod y materion yn codi o dan yr eitemau perthnasol yn yr agenda.

5. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU

i) Y Trysorydd (Gweler Adroddiadau PG Mai 2026)

Dywedodd y Trysorydd fod dim ond tua £13,000 yn y banc ond ei bod yn gobeithio casglu taliadau aelodaeth drwy ddebydau uniongyrchol yn fuan. Tynnodd Jackie Willmington sylw bod y swm uchod yn cynnwys tua £4,000 o flaendaliadau ar gyfer Taith Flynyddol 2027. Dywedodd y Trysorydd ei bod wedi talu am y stondin yn yr Eisteddfod ac nad oedd sylweddol i'w ddisgwyl hyd inni dderbyn y bil am gyhoeddi'r cylchgronau ym mis Gorffennaf.

Esboniodd nad oedd wedi bod y bosibl datrys y broblem gyda Bottomline ac felly ei bod wedi dod i gytundeb gyda GoCardless. Esboniodd y byddai aelodau'n derbyn e-bost gyda linc er mwyn mewnosod eu cyfeiriadau banc. Dywedwyd bod 467 o aelodau'n talu drwy ddebyd uniongyrchol

ond nad oedd cyfeiriad e-bost yn y bas data yn achos 67 ohonynt. Cynigiodd drefnu i aelodau'r PG (Pwyllgor Gwaith) ddefnyddio'r system fel arbrawf cyn cofrestru'r aelodau i gyd. Esboniodd ei bod yn bwriadu casglu taliadau 2026/27 ar 1^{af} Gorffennaf ac wedyn ystyried trin taliadau 2024/25 a 2025/26.

Dywedodd y Trysorydd ei bod wedi dechrau ymchwilio cyfrifon banc i elusennau gyda'r bwriad o adael HSBC.

Soniwyd am y posibilrwydd o gasglu £11 o Rodd Cymorth ar swm a roddwyd mewn ewyllys ond esboniwyd bod y system yn gymhleth a byddai cofrestru a hawlio'n yn cymryd cymaint o amser nad oedd yn werth chweil ei wneud oni bai byddai cyfle i hawlio Rhodd Cymorth yn gyson. Dywedwyd nad oedd yn bosibl hawlio Rhodd Cymorth ar danysgrifiadau aelodaeth oherwydd i'r aelodau dderbyn lles am eu taliadau ar ffurf gweithgareddau a chylchgronau.

Tynnodd Amanda sylw ei bod yn gobeithio ymgymryd â gwaith y drysoryddiaeth ar un noson yr wythnos yn unig ac felly gallai fod oedi wrth ymateb i ymholiadau. Diolchodd i Rhisiart am ei gymorth gyda phroblemau technegol.

Dywedodd Gwyn ei fod yn edmygu dyfalbarhad Dafydd ac Amanda wrth ddelio â'r problemau a chytunwyd yn unfrydol. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu gwaith.

ii) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth (Gweler Adroddiadau)

Esboniodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth iddo lwyddo i gasglu un taliad prawf cyn i gerdyn Bottomline fynd o'i le. Dywedodd ei fod yn dal i ddisgwyl cerdyn newydd ac o'r herwydd cynigiwyd dod i gytundeb gyda GoCardless. [Gofynnwyd am gymeradwyaeth y PG drwy e-bost yn y mis cyn y cyfarfod. JW]

iii) Is-bwyllgor Marchnata (gweler Adroddiadau)

Dywedodd yr Ysgrifennydd ei bod wedi derbyn neges gan Hywel Madog Jones a gadarnhaodd fod gwaith yr Is-bwyllgor wrth baratoi at yr Eisteddfod yn mynd rhagddo heb broblemau sylweddol. Nodwyd y byddai Darlith y Gymdeithas yn y Babel Cymdeithasau am 2 y.p. ddydd Llun a byddai Hedd Ladd Lewis yn arwain taith faes ddydd Iau. Tynnwyd sylw y byddai angen archebu cardiau cyfarch. Rhoddwyd ar ddeall bod rota y stondin bron y llawn.

iv) Is-bwyllgor Llên Natur (gweler Adroddiadau)

Dywedodd Dominig fod Duncan Brown yn Ysbyty Gwynedd ers y diwrnod cynt.

Adroddodd fod y gwaith o ddiogelu'r wefan at y dyfodol yn mynd rhagddo gyda'r wefan bellach ar VPS (Gweinydd Preifat Rhithwir) a'r data yn cael eu cadw'n gyson.

Dywedodd ei fod wrthi'n paratoi rhifyn 220 o'r bwletin Glas.

Diolchodd y Cadeirydd i Dominig a Duncan a dywedodd y byddai pawb yn dymuno anfon eu dymuniadau gorau at Duncan

v) Trefnyddion Gweithgareddau

Gofynnodd Trefnydd y Gogledd-orllewin a oedd aelodau dibreswyl wedi manteisio ar y cyfle i ymuno â theithiau Gŵyl y Gororau a dywedodd y Cadeirydd fod pedwar wedi mynychu Ann Griffiths ac yr oedd dau ar daith Croesoswallt.

Nid oedd problemau i'w hadrodd ynglŷn â threfnu teithiau maes yn rhanbarth Gwynedd a Môn nag yn y De a'r Canolbarth.

Diolchodd y Cadeirydd i Drefnyddion y tri rhanbarth.

vi) Golygydd y Cylchlythyr (gweler Adroddiadau)

Dywedodd y Golygydd ei fod yn disgwyl eitem ynglŷn â Gŵyl y Gororau ond bod ychydig iawn o eitemau eraill ganddo ac felly ei fod ar fin e-bostio apêl at gyfranwyr cyson. Tynnodd sylw mai 19 Mehefin fyddai'r dyddiad cau.

Dywedodd Gwyn Roberts ei fod yn awyddus i ymddiswyddo o'r olygyddiaeth ar ôl cyhoeddi rhifyn yr Eisteddfod. Tynnodd sylw fod rhifyn y Gwanwyn yn haws i'w gynhyrchu gyda llai o bwysau o ran amser. Ychwanegodd fod y Panel Golygu o gymorth mawr i'r Golygydd a mynegodd ei barodrwydd i roi help gyda rhifyn cyntaf y Golygydd newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Gwyn am ei waith ardderchog gan nodi bod y Cylchlythyr wedi newid ers y cyfnod clo gyda mwy o dudalennau i'w llenwi ers rhoi'r gorau i gynnwys rhaglen y gweithgareddau maes.

vii) Golygydd y Naturiaethwr

Dywedodd Dafydd Lewis fod rhifyn y gwanwyn wedi cynnwys dwy erthygl gan ymgeiswyr yng nghystadleuaeth y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Nododd fod hawlfraint i'r lluniau wedi achosi anhawster yn achos un ohonynt.

Dywedodd y byddai rhifyn yr Eisteddfod yn cynnwys ail ran erthygl Twm Elias ynglŷn ag amaethyddiaeth yn amser y dyddiadurwr Owen Edwards ac ail erthygl gan un o'r cystadleuwyr.

Nodwyd bod Hywel Madog Jones wrthi'n ceisio gwella cysylltiadau gydag awdurdodau'r Eisteddfod er mwyn cael caniatâd i gyhoeddi erthyglau'r cystadleuwyr i gyd.

Dywedodd fod prinder cyfraniadau'n golygu efallai y byddai rhaid cynnwys eitem gan Ann Adnabyddus. [Ffugenw'r Golygydd. JW] Ychwanegodd ei fod yn gobeithio cynnwys eitemau o gystadleuaeth y Gymdeithas i ddysgwyr yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Dafydd am hel pethau at ei gilydd.

viii) Dysgwyr (gweler Adroddiadau)

Adroddodd yr Ysgrifennydd ddechrau da i Gystadleuaeth y Dysgwyr, er bod y nifer o gystadleuwyr braidd yn siomedig. Diolchodd i Elen Owen a Carwen Vaughan am feirniadu. Dywedodd fod Golygydd y Naturiaethwr yn ystyried cyhoeddi'r cyfraniadau gorau a'i bod yn paratoi at hyrwyddo Cystadleuaeth 2027.

Dywedodd Shelagh y byddai'n aelod o'r panel yn y sesiwn "3 Lle" ym Maes D yn yr Eisteddfod.

ix) Y Grŵp Trefnu Gwyliau (Gweler Adroddiadau)

Dywedodd John Griffith fod Gŵyl y Gororau wedi bod yn llwyddiannus a bod y gwesty'n dda ac yn fodlon bod yn hyblyg o ran amser swper. Cofnododd ei fod yn ddiolchgar am y croeso cynnes a gafwyd gan bobl leol ac yn enwedig arweinwyr y teithiau. Diolchodd hefyd i Hywel Madog Jones, Gareth Wyn Jones a Dawi Griffith am gynnig gwibdeithiau. Mynegodd ei werthfawrogiad o wasanaethau Cwmni Elfyn Thomas.

Esboniodd fod yr aelodau wedi cyfrannu at gildwrn a rannwyd rhwng staff y gwesty a gyrwyr a staff swyddfa Cwmni Elfyn Thomas. Casglwyd arian hefyd i dalu am de ac adloniant cerddorol yn ystod taith Bro Ann Griffiths. Cynigiodd roi £250, sef y gweddill o gasgliad gwirfoddol gyda chyfraniad ychwanegol gan y tri threfnydd, i gronfa Maldwyn ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2027 mewn cydnabyddiaeth o gymorth pobl leol yn ystod ein hymweliad. Cytunodd pawb.

Nododd y Cadeirydd fod Dawi Griffith yn gorfod mynd adref yn gynnar a dywedodd y byddai'n anfon neges yn cofio ato (**pwynt gweithredu**).

Adroddodd John fod 30 aelod wedi cofrestru ar gyfer Taith Flynyddol 2027 yn Llydaw a 31 Mai oedd y dyddiad cau. Dywedodd ei fod wedi trefnu cwrdd â Dominig er mwyn dechrau llunio'r rhaglen.

Dywedodd bod y Gymraeg yn gyfredol ar yr ap Pl@ntNet. Esboniodd bod y Gymraeg ar gael fel iaith yr apiau Merlin ac eBird a byddai'r enwau Cymraeg ar adar ar gael yn yr ap Merlin ar ôl y diweddariad nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i John am ei holl waith ar yr apiau.

Tynnwyd sylw bod angen aelodau newydd i weithio gyda'r grŵp trefnu gwyliau wrth drefnu'r daith i Lydaw ac wedyn i gymryd lleoedd John a Jackie. Adroddwyd nad oedd ymateb i apêl drwy grŵp WhatsApp Gŵyl y Gororau ac felly y byddai rhaid cynnwys eitem yn y Cylchlythyr (**pwynt gweithredu**).

6. CYFARFOD BLYNYDDOL 2026

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Elizabeth wedi bwcio Neuadd Rhydypennau ar 3^{ydd} Hydref. Awgrymwyd trefnu:-

Sgwrs gyntaf

~ 12.00 Cinio (cynigir paned ond aelodau i ddod â phecyn bwyd)

13.00 Cyfarfod Blynyddol

Ail sgwrs

Soniwyd am siaradwyr dichonol:-

Daniel Jenkins Jones (adar)

Cyfraniad ynglŷn â chynhyrchu'r Cylchlythyr (e.e. Toby Bragg, Rheolwr Cynhyrchu y Lolfa ac Elgan Griffith, dylunydd)

Carwyn Graves

Cynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn ynglŷn ag afancod Cors Dyfi

Awgrymwyd cynnal cyfarfod rhithwir byr o'r PG yn y wythnos flaenorol. efallai nos lau, er mwyn diweddarau trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol.

Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â Goronwy Wynne ac esbonio'r drefn newydd (**pwynt gweithredu**).

Gofynnwyd i Drefnwyr y tri rhanbarth beidio â chynnig teithiau maes ar 3^{ydd} Hydref.

7. GŴYL 4/4 2027

Awgrymodd yr Ysgrifennydd gynnal digwyddiad "pedair taith, pedwar diwrnod" yn Sir Gar yn 2027 a gwirfoddolodd ymgymryd â'r gwaith gweinyddu.

Dywedodd John Griffith fod trefniadau ar gyfer 4/4 Mawddwy 2026 yn eu lle. Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Marchnata ynglŷn â pharatoi poster i hysbysebu'r digwyddiad yn yr Eisteddfod (**pwynt gweithredu**).

8. CYSYLLTIADAU TRWY'R WEFAN (gweler Adroddiadau)

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd at ei chrynodeb o'r ymholiadau a dderbyniwyd trwy'r ffurflen gyswllt ar y wefan. Dywedodd fod nifer o'r cysylltiadau'n cyfeirio at faterion nad oedd yn berthnasol i'r Gymdeithas.

Mynegwyd siom nad oedd Bethan Jones, Cyngor Llyfrau Cymru, wedi derbyn grant am y prosiect arfaethedig "Meithrin Natur" (gweler cofnodion cyfarfod Tachwedd 2025 eitem 12 ii).

9. GOHEBIAETH dim

11. UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cadeirydd fod Trefnydd Gweithgareddau'r De a'r Canolbarth wedi tynnu sylw at deithlyfr *Taith Dyffryn Teifi* a gyhoeddwyd yn Saesneg yn unig. Cytunodd y Cadeirydd i anfon sylwadau Gareth at yr Ysgrifennydd er mwyn iddi gysylltu â'r sefydliad perthnasol (**pwyt gweithredu**).

<https://teifivalleytrail.wales/cy/>

Dywedodd Iwan nad oedd Goronwy Wynne wedi derbyn y cyfraniad o £100 tuag at gyhoeddi llyfr (gweler cofnodion cyfarfod fis Chwefror 2026 eitem 4i). Dywedodd y Trysorydd na dderbyniwyd y manylion banc angenrheidiol. Gwirfoddolodd Iwan i ofyn am fanylion y cyfrif (**pwyt gweithredu**).

Tynnodd Iwan sylw at hanner can mlwyddiant y Gymdeithas ym mis Gorffennaf 2028. Awgrymodd Dafydd Lewis gomisiynu erthygl am hanes y Gymdeithas drwy'r 50 mlynedd. Awgrymodd y Cadeirydd roi'r mater ar agenda cyfarfod fis Medi (**pwyt gweithredu**).

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

17^{ain} Medi 2026 (cyfarfod rhithwir)

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gobeithio bod pawb wedi cael cyfle i ddweud eu dweud. Atgoffodd aelodau'r PG fod angen penodi olynwyr i Olygydd y Cylchlythyr, dau aelod o'r grŵp trefnu gwyliau, Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

Diolchodd i aelodau am fynychu'r cyfarfod gan ddweud ei bod yn gobeithio gweld pawb yn yr Eisteddfod. Cofiodd at Dawi a Duncan.